

Castell Caerdydd

Gweithdy Bywyd ar y Ffrynt Cartref

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg yn y Tiroedd ac yn Llochesau Ail Ryfel Byd y Castell

Disgrifiad

Bydd yr ymweliad hwn yn cynnwys gweithdy gyda warden ARP yn edrych ar amrywiaeth eang o agweddau ar y Ffrynt Cartref gan gynnwys dogni a gwacáu, taith o amgylch Llochesi Rhyfel y Castell, a roddodd lloches i bron 2,000 o bobl yn ystod y cyrch awyr ar y ddinas a sesiwn i ddysgu am bell gân boblogaidd o'r cyfnod. Bydd y plant i gyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dril pwmp troed. Cynhelir y sesiynau gan hwylusydd proffesiynol mewn dillad o'r oes sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB). y Swyddog Addysg (wedi pasio prawf DRB) ac un o dywyswyr y Castell.

Hyd

Bydd y gweithdy yn para 60-75 munud a bydd y daith yn para 45-60 munud. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer y grwpiau yn ymweld ar unrhyw ddiwrnod penodol (3 grŵp y dydd - gweithdy 75 munud gan gynnwys dril pwmp troed a thaith 30 munud, 4 grŵp y dydd - gweithdy 50 munud a thaith 45 munud gan gynnwys dril pwmp troed). Bydd y sesiwn ganu yn para 30 munud.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Gweithdy

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am sut ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd a pha wledydd oedd yn rhan
- ◆ Dysgu am rôl y Warden ARP a gwasanaethau dinasyddion eraill
- ◆ Dysgu sut i ddefnyddio masg nwy a chymryd rhan mewn Dril Masg Nwy
- ◆ Dysgu am ddogni a gwacáu
- ◆ Dysgu sut i ddefnyddio pwmp troed a chymryd rhan mewn dril (bydd hwn weithiau yn rhan o'r daith yn hytrach na'r gweithdy)

Taith o'r Llochesi Cyrch Awyr

Erbyn diwedd y daith, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu sut defnyddiwyd y Castell fel lloches cyrch awyr i'r cyhoedd yn ystod y rhyfel
- ◆ Dysgu pa gyfleusterau oedd ar gael i'r rheiny oedd yn llochesu ym muriau'r Castell
- ◆ Dysgu sut y dioddefodd Caerdydd yn ystod y rhyfel a'r prif gyrchau awyr a ddigwyddodd dros Gaerdydd
- ◆ Dysgu sut deimlad fyddai i fod yng nghanol cyrch awyr o fewn y Llochesi

Gwers Ganu

- ◆ Dysgu am y pwysigrwydd o ganu cymunedol ar y pryd
- ◆ Dysgu dwy gan enwog yn ystod y rhyfel
- ◆ Dysgu sut mae geiriau caneuon o bob cyfnod yn dangos beth oedd yn digwydd ar y pryd ac ymateb pobl i'r digwyddiadau hynny a sut y gallwn gael gwybodaeth am yr amser drwy astudio geiriau caneuon poblogaidd
- ◆ Dysgu sut i berfformio gydag ystum, rheolaeth a dynameg gywir

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

◆ Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)

- Y gwahaniaeth ym mywydau bob dydd pobl mewn dau gyfnod gwahanol o'r ugeinfed ganrif (Hanes)
- Perfformio (Cerddoriaeth)

Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)

- Prydain Ers 1930 (Hanes)
- Rheoli seiniau drwy ganu a chwarae (Cerddoriaeth)
- Creu a datblygu syniadau cerddorol – sgiliau perfformio (Cerddoriaeth)

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

Mae eich ymweliad â'r Castell hefyd yn cynnwys:

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Tŵr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.